Gwasanaeth Gwirfoddol
BIP Caerdydd a'r Fro

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cardiff and Vale University Health Board

# GWIRFODDOLWR YMGYSYLLTU YSTYRLON

Gwasanaeth Niwroseiciatreg Cymru

**Lleoliad**
*Hafan Y Coed, Llandough*

**Yn adrodd i**
*Rheolwr Ward/Cydlynydd Gweithgareddau*

**Yn atebol i**
*Rheolwr Gwasanaethau Gwirfoddol*

**Ymrwymiad Amser**
*o leiaf 2 awr yr wythnos am o leiaf 6 mis*

**Gwiriadau Gofynnol**
*DBS (Gwiriad Cofnodion Troseddol)*
*Gwiriad Iechyd Galwedigaethol*
*Dau Eirda*

**Treuliau**
*Caiff treuliau teithio i/o leoliadau ar ddiwrnod gwirfoddoli eu had-dalu*

## GOFYNION PERSONOL

- Meddu ar sgiliau gwrando rhagorol a bod yn anfeirniadol.
- Bod yn hyderus wrth gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr, staff ac aelodau o'r cyhoedd.
- Bod yn frwdfrydig am nodau a gwaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Dangos lefelau o empathi a dealltwriaeth bob amser.
- Edrych yn drwsiadus, yn smart a gwisgo gwisg a bathodyn adnabod Gwirfoddolwr Bwrdd Iechyd y Brifysgol bob amser.
- Cydnabod pryd i atgyfeirio materion a chwestiynau at staff Bwrdd Iechyd y Brifysgol.

## AMLINELLIAD O'R DYLETSWYDDAU

xMae Gwasanaeth Niwroseiciatreg Cymru yn wasanaeth iechyd meddwl trydyddol arbenigol i Gymru gyfan ar gyfer unigolion (18 oed+) sydd wedi dioddef anaf difrifol i'r ymennydd. Mae'r ward cleifion mewnol 10 gwely a'r Gwasanaeth Dydd yn darparu gofal adsefydlu i gleifion sy'n dioddef o broblemau niwroseiciatrig, gwybyddol, emosiynol ac ymddygiadol o ganlyniad i'r anaf hwnnw

Bydd gwirfoddolwyr yn cefnogi'r tîm rhyngddisgyblaethol gan helpu i wella adferiad corfforol, gwybyddol, cyfathrebu a galwedigaethol.
Bydd gwirfoddolwyr yn ymgysylltu'n ystyrlon â chleifion trwy weithgareddau, naill ai 1:1 neu mewn grwpiau bach, yn yr Ystafell Ddydd. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys posau a gemau, celf a chrefft, a gweithgareddau tymhorol. Gall gwirfoddolwyr hefyd fod yn helpu'r tîm ar y ward i gyflawni gweithgareddau ac ymgysylltiad ystyrlon fel grwpiau cymdeithasol/cyfeillgarwch, grwpiau gweithgarwch corfforol (e.e. coetiau a sgitls).

***Bydd y rôl yn cynnwys ymgysylltu â chleifion a fydd ag anghenion a lefelau gweithredu amrywiol, wrth i gleifion brofi ystod o broblemau corfforol, gwybyddol, emosiynol a/neu ymddygiadol, ac felly bydd angen gwirfoddolwyr dyfeisgar sy'n gyfathrebwyr hyderus.***

## PRIF DASGAU

- Trin pob claf ag urddas a pharch
- Cefnogi defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan mewn sesiwn drwy annog a darparu sicrwydd ac arweiniad
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon gyda chleifion 1:1
- Cynorthwyo staff gyda sesiynau gweithgareddau, a allai gynnwys celf a chrefft, gemau cymdeithasol a gweithgareddau tymhorol
- Helpu i drefnu a cyflwyno sesiynau, gan gysylltu â hwyluswyr y grŵp
- Tawelu meddwl cleifion sy’n bryderus, yn ddryslyd neu’n nerfus
- Helpu i osod yr ystafell ar ddechrau'r sesiwn a thacluso’r ystafell ar y diwedd
- Cefnogi staff gyda unrhyw sesiynau lles gan gynnwys sesiynau awyr agored

## HYFFORDDIANT A CHYMORTH

Bydd angen i wirfoddolwyr ymgymryd â chynllun Hyfforddi a Sefydlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ogystal â lefel briodol o hyfforddiant codi a chario a thrais ac ymddygiad ymosodol. Caiff anghenion hyfforddi eu nodi drwy'r broses oruchwylio a'u diwallu drwy Raglenni Hyfforddi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

***Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu trin yn gynhwysol gan y Tîm Gwasanaethau Gwirfoddol a byddant yn cael cynnig goruchwyliaeth ac arweiniad parhaus.***

## MANTEISION I'R GWIRFODDOLWR

Mae'r rôl hon yn cynnig:

- Profiad o weithio mewn tîm.
- Boddhad o gynorthwyo eraill a darparu gwasanaeth amhrisiadwy i'r Bwrdd Iechyd a'r gymuned.
- Cyfle i ddatblygu sgiliau a phrofiad personol.
- Cyfle i ddatblygu sgiliau cyfathrebu ymhellach.
- Cyfle i ddatblygu gwybodaeth am anawsterau cyfathrebu.
- Geirda ar gais (ar gael ar ôl i chi wirfoddoli am chwe mis yn unig).

## MANYLEB Y PERSON

| Meini prawf | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Deall pwysigrwydd cyfrinachedd a dilyn gweithdrefnau | x | |
| Profiad o weithio mewn lleoliad gofal iechyd | | x |
| Sgiliau cyfathrebu da | x | |
| Gallu siarad Cymraeg | | x |
| Gallu gweithio'n annibynnol neu fel rhan o dîm | x | |
| Dibynadwy a phrydlon | x | |
| Brwdfrydig a llawn cymhelliant | x | |
| Profiad o wirfoddoli | | x |
| Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant | x | |
| Ar gael i wirfoddoli am yr amser sydd ei angen | x | |
| Lefel sylfaenol o ddealltwriaeth o ddementia | x | |